I:
**Y Cyng. Ellen ap Gwynn**
Cadeirydd Cyd-bwyllgor ERW

Gofynnwch am: Y Tîm Craffu

Llinell y Swyddfa Graffu: 01792 637256

e-bost: scrutiny@swansea.gov.uk

Dyddiad 01 February 2019

Annwyl Gynghorydd ap Gwynn

**Grŵp Cynghorwyr Craffu ERW – 10 Ionawr 2019**

Hoffai'r Grŵp Cynghorwyr Craffu ddiolch i chi, y Cyfarwyddwr Arweiniol a Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro ERW am ddod i'n cyfarfod i drafod cynnydd o ran Cynllun Gwella ERW a'r Genhadaeth Genedlaethol. Ysgrifennaf atoch i adlewyrchu safbwyntiau'r cyfarfod hwnnw.

Fel y gwyddoch, yn ein cyfarfod ym mis Medi 2018, mynegwyd ein pryderon ynghylch y diffyg cynnydd a wnaed o ran diwygio ERW. Ar ôl trafod hyn â chi, rydym yn teimlo'n fwy tawel ein meddwl bellach fod cynnydd yn cael ei wneud, a hynny mewn ffordd fwy amserol.

Rydym yn sylweddoli'r rôl y mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro wedi ei chwarae o ran meithrin perthnasoedd ac o ran bwrw ymlaen â'r gwelliannau angenrheidiol. Rydym yn cael ar ddeall y bydd Rheolwr Gyfarwyddwr parhaol yn cael ei benodi cyn hir, ac roeddem yn falch o glywed y bydd y Cyd-bwyllgor yn cymryd rhan yn y broses benodi hon. Byddem yn eich annog i sicrhau bod digon o amser yn cael ei dreulio er mwyn cael unigolyn o'r radd flaenaf a fydd wedi ymrwymo i fynd â'r sefydliad i gyfeiriad cadarnhaol, gan ddilyn yr ethos a'r egwyddorion sydd wedi'u nodi bellach.

Rydym yn falch o glywed bod set o gynigion o ran y ffordd ymlaen ar gyfer ERW wedi'u datblygu ar y cyd â chynrychiolwyr allweddol o'r chwe awdurdod lleol, ac y bydd hyn yn cael ei drafod yng Nghyd-bwyllgor ERW ar 8 Chwefror. Rydym wedi cael ar ddeall y bydd y cynigion hyn yn amlinellu:

- Y diben ar gyfer dyfodol ERW
- Strwythur arweinyddiaeth ERW wrth symud ymlaen
- Strwythur staffio ehangach ERW, gan gynnwys arbenigwyr cynradd ac uwchradd a thîm ad hoc y gellir ei ddefnyddio yn ôl yr angen
- Newid rolau'r Ymgynghorwyr Her
- Cynllunio a chefnogi darpariaeth weithredol

- Datblygu mecanweithiau adolygu ar gyfer prosesau cyflawni gweithredol a strategol

- Edrych o'r newydd ar brosesau ariannu ERW, gan ganolbwyntio ar ryddhau £1m o'r gyllideb er mwyn gweithio gydag ysgolion, a sicrhau tryloywder yn y broses gyllidebu, yn enwedig o ran dyrannu grantiau.
- Y camau nesaf, gan gynnwys: cytuno ar broses adnoddau dynol a chynnwys rhanddeiliaid allweddol, cytuno ar fodel ariannol, a sicrhau lefelau llywodraethu.

Yn dilyn ein trafodaeth fanwl, hoffem rannu ein casgliadau a'n hargymhellion â chi o ran y materion isod:

1. Rhaid i ERW barhau i ganolbwyntio ar feithrin perthnasoedd ag ysgolion ac, yn arbennig, athrawon pwnc/dosbarth. At ddibenion gweithredu'r cwricwlwm newydd, ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd cefnogaeth ymarferwyr yr ystafell ddosbarth. Mae blaenoriaethu'r gwaith o wella perthnasoedd ag athrawon rheng flaen hefyd yn hanfodol er mwyn meithrin ymddiriedaeth yn y consortiwm rhanbarthol.

2. Credwn fod gan ERW rôl bwysig i'w chwarae o ran datblygu sgiliau cyflogadwyedd yn ein rhanbarth. Byddem yn cynghori y dylai'r swyddogaeth hon gael ei chydnabod yn swyddogol trwy ei hymgorffori yn strwythur staffio ERW. Byddem yn awgrymu y gellid cyflawni hyn trwy gynnwys cyfrifoldeb i weithio gyda Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, lle maent yn bodoli, yn ogystal â chyflogwyr ledled y rhanbarth, yn swydd-ddisgrifiad un o swyddogion ERW. Byddai hyn yn sicrhau bod sgiliau a phrofiadau cyflogadwyedd yn cael eu hymgorffori'n well yn addysg ein pobl ifanc.

3. Rydym yn nodi, ac yn derbyn, fod y ddadl o ran trefniadau cyflogaeth Ymgynghorwyr Her wedi symud ymlaen o'r trafodaethau cynharach. Yn y cyd-destun hwn, byddem yn awgrymu ei bod yn bwysig bod cyfrifoldebau rhanbarthol Ymgynghorwyr Her a gyflogir yn lleol yn cael eu ffurfioli a'u monitro'n briodol.

4. Argymhellwn yn gryf fod ERW yn datblygu amserlenni a cherrig milltir clir ar gyfer ei daith ei hun at welliant ac ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm newydd. Dylai'r rheiny sy'n ymwneud â datblygiad y consortiwm ei hun gael eu rhannu a'u darparu er mwyn sicrhau y creffir arnynt a'u bod yn cael eu monitro'n lleol, yn ogystal ag yn rhanbarthol gan Grŵp Cynghorwyr Craffu ERW. Er ein bod yn ymwybodol bod angen rhagor o fewnbwn gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â Donaldson, teimlwn ei bod yn bwysig bod ysgolion ac athrawon dosbarth yn gwybod yn bur fanwl, ac ymhell ymlaen llaw, pa adnoddau a chyfleusterau fydd yn cael eu darparu gan y consortiwm, a phryd y byddant ar gael. Credwn y byddai hyn yn helpu i ryw raddau i gyflawni'r argymhelliad ym mharagraff 1.

5. Byddem yn ddiolchgar pe gallai ERW roi mwy o eglurder ynghylch yr arbedion y disgwylir eu gweld yn sgil y model newydd, a'r modd y byddant yn cael eu defnyddio. A fydd yr arbedion hyn yn cael eu trosglwyddo i'r Awdurdodau Lleol neu i'r ysgolion, neu a fyddant yn cael eu hailfuddsoddi yn y consortiwm

rhanbarthol? Er y sylweddolwn fod y model newydd yn dal i gael ei ddatblygu, byddem yn gofyn yn barchus am gael gwybodaeth am hyn yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Cynghorwyr.

6. Rydym yn llongyfarch y Cyfarwyddwr Dros Dro ar y modd y mae wedi datblygu perthnasoedd â rhanddeiliaid addysg. Byddem yn argymell bod y ffocws ar hyn yn parhau ar lefel swyddogion ac ar lefel wleidyddol.

7. Hoffem weld rhagor o adnoddau dosbarth llwyddiannus ac adnoddau dosbarth arfer da yn cael eu rhoi ar Hwb er mwyn iddynt gael eu rhannu a'u defnyddio gan bob ysgol yn y rhanbarth. Byddem yn awgrymu y dylai hyn fod yn flaenoriaeth yn y dyfodol agos gan y byddai, unwaith eto, o fudd er mwyn cyflawni'r canlyniad a drafodir ym mharagraff 1.

8. Credwn fod yn rhaid i ERW ddatblygu deialog gyson â CBAC. Byddem yn gobeithio trwy hyn y gallai ERW chwarae rhan o ran sicrhau bod ysgolion yn cael gwybodaeth hanfodol ynglŷn â newidiadau i asesiadau cyn gynted ag y bo modd.

9. Hoffem ofyn, yn rhan o'r gwaith ar y model newydd, a yw strwythurau llywodraethu ERW yn dal i gael eu hadolygu? Os ydynt, byddai'r Grŵp Cynghorwyr yn gofyn am gael gweld unrhyw bapurau ar y pwnc hwn pan fyddant ar gael.

Diolchwn i chi am eich cynnig i ddod i'n cyfarfodydd yn ôl y galw yn y dyfodol. Byddwn yn trafod hyn pan ystyriwn y gwaith o ddatblygu ein rhaglen waith at y dyfodol yn ein cyfarfod nesaf ym mis Mawrth.

Yr eiddoch yn gywir,



**Y Cyng. Alex Thomas**
**Cadeirydd Grŵp Cynghorwyr Craffu ERW**
Cllr.a.l.thomas@npt.gov.uk

Darperir Cymorth Craffu Grŵp Cynghorwyr Craffu ERW gan Gyngor Abertawe
Cyswllt: Y Tîm Craffu, Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas, Abertawe SA1 4PE
☎ 01792 637256
✉ scrutiny@swansea.gov.uk